

Pam fod polisiau mor bwysig?

Cyn y gallwn ni roi arian i grwpiau, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod ganddyn nhw'r polisiau cywir. Mae hynny er mwyn i ni allu dal i fod yn arianwyr cyfrifol, a bod yn sicr fod y cymunedau rydym yn eu cefnogi, hefyd, yn eu tro, yn gofalu am y rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae'n rhaid i chi atodi polisi diogelu a pholisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd gyda phob cais rydych yn ei gyflwyno. Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, efallai bod hynny oherwydd ein bod ni wedi gofyn i chi gryfhau eich polisiau. Byddwn yn awgrymu eich bod yn ystyried yr wybodaeth isod i wneud yn siŵr fod eich polisiau'n foddhaol cyn cyflwyno cais.

Cofiwch: ymarfer gorau ar gyfer polisiau yw eu bod yn cael eu llofnodi a'u hadolygu pob blwyddyn.

Polisi diogelu

Dylai pob sefydliad sy'n gweithio gyda grwpiau bregus, plant neu bobl hŷn a allai fod mewn perygl, sefydlu polisi diogelu yn dangos sut y maen nhw'n bwriadu cadw'r bobl hynny'n ddiogel. Mae yna dempledi ardderchog ar gael ar wefannau [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#), [Ymddiriedolaeth Crefft Ann](#) a'r [NSPCC](#), yn dibynnu gyda pha fath o grwpiau bregus rydych chi'n gweithio. Mae'n eithriadol o bwysig fod eich sefydliad chi yn addasu'r templed hwn i adlewyrchu'r gwaith rydych chi'n ei wneud.

Ond, mae hefyd yn hanfodol fod gan bob sefydliad bolisi diogelu sy'n cynnwys proses hawdd ei ddilyn pe byddai pryder yn codi ynghylch diogelu. Ni fyddwn yn disgwyl i'r polisi fod mor fanwl â pholisiau sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau bregus, ond byddwn yn dal eisiau gweld bod trefn glir yn cael ei sefydlu.

Er enghraifft, os yw eich pwyllgor yn gofalu am ganolfan gymunedol, dylech gael polisi diogelu rhag ofn y bydd aelod o'r gymuned neu aelod o'ch sefydliad yn datgan pryder. Os ydym ni o'r farn nad yw eich polisi'n cyrraedd y safon rydym ei hangen, byddwn yn gofyn i chi ei gryfhau cyn y gallwn ddyfarnu arian i chi.

Mae'n bwysig nodi fod pob polisi diogelu'n gofyn am enwi Swyddog Diogelu a dangos ei fanylion cyswllt. Mae'n rhaid i'r manylion hyn hefyd gael eu dangos yn amlwg yn y polisi fel y gall pawb, (staff, gwirfoddolwr neu buddiolwr) a allai fod angen cyflwyno pryder ynghylch diogelu eu gweld ar unwaith.

Yn olaf, byddwn yn awgrymu'n gryf bod polisiau diogelu yn cael eu haddasu ar unwaith i gynnwys unrhyw newidiadau a awgrymir. Mae gan [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#) webinar benodol ar lein ynghylch diogelu a chadw pobl yn ddiogel tra'n rhedeg prosiectau o bell.

Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd

Mae polisiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd ar gyfer gwahaniaethu ar sail oed, anabledd, ail aseinio rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a / neu gred, rhyw neu dueddiad rhywiol sy'n cael ei gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'n rhaid i'r polisiau gyfeirio at y Ddeddf Cydraddoldeb, y gwaith penodol mae eich sefydliad yn ei wneud a'r Egwyddorion Moesol sy'n adlewyrchu orau eich cymuned a'ch gweithgareddau.

Mae Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol wedi ysgrifennu canllaw defnyddiol ar pam fod hyn yn arbennig o bwysig yn y sector gwirfoddol, gan gynnwys sut i **weithredu** ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd.

Mae gan bawb ei ran i wneud yn siŵr fod sefydliadau'n lleoedd cynhwysol, ac mae'n rhaid cydnabod pa bŵer a braint sydd gennym ni a sut y gallwn ni ganfod a chael gwared ar anghydraddoldeb yn ein sefydliadau.

Mae ychydig o awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd ar wefan y **Ganolfan Adnoddau, Côd Llywodraethu Elusennau a Chanllawiau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**.

Polisi Benthyc Offer Cyfrifiadurol

Yn draddodiadol, mae polisiau ynghylch offer cyfrifiadurol wedi'u hargymell ar gyfer sefydliadau sy'n benthyc offer neu dechnoleg cyfrifiadurol i'w buddiolwyr neu i aelodau o'u cymuned. Fodd bynnag, wrth i fwy o weithgareddau a sesiynau symud ar lein oherwydd y pandemig, mae'n amlwg y dylai polisiau offer cyfrifiadurol gynnwys llawer mwy nag offer wedi mynd ar goll neu wedi torri.

Dylid cynnwys cymalau cyfrinachedd ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, yn ogystal ag ynghylch defnydd annerbyniol; gan gynnwys peidio â mynd at ddeunyddiau amhriodol, bwlio ac aflonyddu, a allai ddwyn anfri ar y sefydliad.

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Diogelu Data

Pasiodd yr Undeb Ewropeaidd y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn 2018. Eu diben yw rheoli preifatrwydd a diogeldd data ac maen nhw'n cyd-fynd â'r Ddeddf Diogelu Data (2018) yn y DU.

Rhwng 1 Gorffennaf a 31 Hydref 2020, derbyniodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (rheolydd y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol) 2,594 o gwynion am doriadau, sy'n gallu arwain at ddirwyon o hyd at £20 miliwn neu 4% o'r trosiant blyneddol byd eang.



Mae'r dolenni canlynol yn eich tywys i wefannau allanol sy'n gywir ac yn gyfredol yn ein barn ni, ond nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am dudalennau a gaiff eu cynnal gan ddarparwyr allanol. Sylwch nad yw'r holl wefannau ar gael yn Gymraeg.

Os bydd eich elusen yn gofyn am, yn derbyn neu'n cadw gwybodaeth bersonol pobl eraill (e.e. o gamera Teledu Cylch Cyfyng, neu drwy gadw rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost defnyddwyr eich gwasanaeth) yna, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cynhyrchu trosolwg gwych o gyfraith Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, gyda dolenni at wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r Grŵp Cyllid Elusennol wedi creu [canllaw ar gyfer](#) elusennau. Mae gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru lawer o webinarau, pecynnau gwaith a dalenni gwybodaeth ynghylch **Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yma**.